Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn
Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Llanfarian

**Y Caban**
**Ysgol Gynradd Llanfarian**
**Llanfarian**
**Aberystwyth**
**SY23 4DA**

**Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2024**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**a**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Chylch Meithrin Llanfarian

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Llanfarian |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal dydd llawn |
| Person(au) cofrestredig | Jade Evans |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | |
| Person â gofal | Bethan Evans |
| Nifer y lleoedd | 19 |
| Amrediad oedran y plant | 2-4 |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 8 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 8 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | 8.30-15.15 Dydd Llun – Dydd Gwener |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae'r gwasanaeth hwn yn rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | Ebrill 2021 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Tachwedd 2017 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 15/10/2024 |
| Darparu addysg 9-11 bob dydd | |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

**Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.**

## Argymhellion

A1 Datblygu hyder y plant i ddefnyddio'r Gymraeg yn gynyddol wrth chwarae.

A2 Ehangu cyfleoedd i blant ddysgu am wahanol ddiwylliannau.

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Lles: Da**

Mae bron pob un o'r plant yn gwneud dewisiadau annibynnol yn ystod eu profiadau chwarae a dysgu. Maent yn mwynhau rhyddid i symud rhwng y gweithgareddau, y profiadau a'r adnoddau sydd ar gael iddynt. Mae bron pob un ohonynt yn hapus wrth gyrraedd ac yn mwynhau cael eu cyfarch yn wresog gan ymarferwyr. Mae hyn yn eu helpu i setlo'n dda a datblygu hyder gydag arferion y dydd. Maent yn mynd at wahanol offer i chwarae yn syth ar ôl iddynt gyrraedd yn y bore. Er enghraifft, mae llawer o blant yn chwarae'n hyderus wrth chwilio am drysor gan ddefnyddio'r chwyddwydr tra mae eraill yn mwynhau arllwys a chludo dŵr o un cynhwysydd i un arall. Caiff plant eu cynorthwyo yn y gweithgareddau yn fedrus gan ymarferwyr, ac o ganlyniad, mae plant yn cynnig eu barn ac yn mynegi eu teimladau'n bwrpasol. Er enghraifft, maent yn mynegi barn wrth benderfynu cymryd rhan mewn gweithgareddau penodol ac yn dewis chwarae dan do neu yn yr awyr agored.

Mae bron pob un o'r plant yn ymgynefino'n gyflym ac yn teimlo'n gyfforddus o fewn y lleoliad. Maent yn ymdopi'n llwyddiannus wrth adael eu rhieni a'u gofalwyr, ac yn amlwg yn teimlo'n ddiogel. Mae bron pob un o'r plant yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'i gilydd, a gydag ymarferwyr ac ymwelwyr. Maent yn datblygu eu medrau cymdeithasol trwy siarad a thrafod wrth chwarae gyda'i gilydd. Er enghraifft, mae plant yn cydweithredu ac yn rhyngweithio'n frwdfrydig wrth geisio cludo'r pwmpenni yn y ferfa o'r cae yn ôl i'r iard.

Mae bron pob un o'r plant yn parchu teimladau a diddordebau plant eraill ac yn dysgu cymryd eu tro yn dda. Er enghraifft, maent yn rhannu'r adnoddau yn synhwyrol yn yr ardaloedd ymchwilio. O ganlyniad, maent yn datblygu medrau cymdeithasol

cadarnhaol. Mae bron pob un yn cynorthwyo’i gilydd yn dda yn ystod gweithgareddau.

Mae’r plant yn datblygu perthnasoedd clòs a chynnes â’r ymarferwyr ac yn rhyngweithio’n llwyddiannus ag ymwelwyr. Mae’r rhan fwyaf yn gyfforddus a hyderus i ofyn i ymarferwyr am gymorth.  Maent yn frwdfrydig yn eu chwarae ac yn rheoli eu hymddygiad yn aeddfed. Maent yn gyfarwydd iawn â’r arferion dyddiol, fel amser byrbryd. Mae’r rhan fwyaf yn dyfalbarhau â thasgau, ac mae llawer ohonynt yn treulio cyfnodau estynedig wrth gymryd rhan yn y gweithgareddau amrywiol sydd ar gael iddynt. Er enghraifft, mae’r plant iau yn mwynhau defnyddio sisyrnau i dorri ar hyd amrywiaeth o linellau, ac mae’r plant hŷn yn cwblhau gwaith coed drwy daro hoelion bychan i ddarnau o bren.

Mae’r rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd da â’u medrau cymdeithasol. Maent yn defnyddio fframiau dringo a llithrennau yn hyderus ac yn creu gwaith celf ddiddorol sy’n cael ei arddangos yn bwrpasol yn y lleoliad. Mae bron pob un o’r plant yn dewis ac yn defnyddio adnoddau’n ddoeth yn ystod amseroedd byrbryd, ac yn golchi a sychu eu dwylo’n annibynnol cyn bwyta ac ar ôl gweithgareddau. Mae’r plant yn gweini llaeth neu ddŵr iddyn nhw eu hunain yn fedrus. Maent yn mwynhau ymgynnull o gwmpas y bwrdd i fwyta.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):  Da**

Mae bron bob plentyn, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn unigol. Mae’r rhan fwyaf yn gwrando a chanolbwyntio’n dda gan ddangos diddordeb wrth wrando ar amrywiaeth o storïau. Mae’r rhan fwyaf yn ymateb yn briodol wrth fwynhau’r stori gan ateb yn hyderus yn eu hiaith gyntaf. Mae rhan fwyaf o blant yn arddangos dealltwriaeth dda ac yn ymateb yn briodol i gyfarwyddiadau trwy gyfrwng y Gymraeg. Er hyn, hyd yma, ychydig sydd wedi datblygu hyder i fynegi eu hunain gan ddefnyddio geiriau ac ymadroddion syml yn Gymraeg.

Mae bron bob un o’r plant yn trin llyfrau’n aeddfed gan droi’r tudalennau yn briodol. Mae’r rhan fwyaf yn dewis edrych ar lyfrau’n annibynnol gan rannu stori gydag eraill. Er enghraifft, maent yn sgwrsio am ble roedd Wil Wiwer yn cuddio yn y stori. Mae bron pob un o’r plant yn defnyddio amrywiaeth o offer marcio yn dda iawn. Er enghraifft,  maent yn defnyddio pinnau ffelt yn gelfydd wrth greu patrymau ar y pwmpenni. Mae medrau rhifedd y plant yn datblygu’n gadarn ac mae’r rhan fwyaf yn defnyddio iaith fathemategol mewn cyd-destunau perthnasol yn dda. Er enghraifft, maent yn trafod y pwmpenni gan gyfeirio at y gwahaniaeth yn eu maint a’u pwysau. Mae llawer o blant yn cyfrif i ddeg yn Gymraeg yn hyderus wrth rifo sawl sticer sydd ganddynt ar ei siart sticeri.

Mae bron pob un o’r plant yn abl iawn i ddefnyddio amrywiaeth o offer digidol yn gywir ac i bwrpas, megis tynnu lluniau gan ddefnyddio llechen digidol i dynnu lluniau ffrindiau a’r pwmpenni yn y cae. Mae bron pob un o’r plant yn arddangos medrau corfforol cadarn. Maent yn cerdded ar hyd y cwrs rhwystrau mwdlyd a thros y trawstiau pren a’r teiars wrth chwilio am drysor. Mae’r rhan fwyaf yn defnyddio siswrn i dorri allan amrywiaeth o linellau syth, igam-ogam a throellog yn fedrus. Mae bron pob un yn dechrau defnyddio teclynnau bychain gyda rheolaeth dda iawn. Maent yn

fedrus wrth ddefnyddio offer gwaith coed, megis llif, sgriwdreifer a morthwyl i dorri pren a tharo hoelen.

Mae bron pob un o'r plant yn arddangos dyfalbarhad da wrth ddatrys problemau ac yn cydweithio'n yn dda â'i gilydd. Er enghraifft, maent yn canolbwyntio'n dda wrth geisio cael y dŵr i lifo trwy'r pibellau. Mae bron bob plentyn yn arddangos creadigrwydd effeithiol mewn gwahanol gyfryngau celfyddydol, gan ddewis sut maent am gyflwyno eu syniadau. Er enghraifft, maent yn defnyddio gwahanol ddeunyddiau fel paent a chreonau i greu llun o mam, ac yn torri o amgylch eu darlun yn fedrus gyda siswrn.

**Gofal a datblygiad: Da**

Mae ymarferwyr yn blaenoriaethu diogelwch plant ac yn cynnal gweithdrefnau effeithiol i sicrhau bod plant yn iach a diogel. Mae pob un ohonynt wedi cael hyfforddiant amddiffyn plant ac yn hyderus ynglŷn â'r gweithdrefnau cywir i'w dilyn pe byddai ganddynt unrhyw bryderon am blentyn. Mae bob un o'r ymarferwyr wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf pediatrig, sy'n eu galluogi i ddarparu triniaeth briodol, pe byddai angen. Maent yn cofnodi unrhyw ddamweiniau'n fanwl, gan sicrhau bod rhieni'n llofnodi'r cofnodion yn amserol. Mae ymarferion tân yn cael eu cwblhau'n rheolaidd a'u cofnodi'n drylwyr. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Gwneir defnydd da o weithdrefnau pwrpasol er mwyn atal lledaenu heintiau. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn annog y plant i olchi eu dwylo'n rheolaidd, yn glanhau'r byrddau cyn amseroedd bwyd ac yn dilyn gweithdrefnau effeithiol wrth newid cewynnau. Mae ymarferwyr yn hyrwyddo bwyta'n iach ac ymarfer corff yn llwyddiannus. Maent yn annog plant i fwyta ffrwythau amrywiol, fel melon dŵr a grawnwin, ac yn sicrhau bod cyfleoedd cyson a buddiol iddynt ddatblygu eu medrau corfforol a threulio amser tu allan yn yr awyr iach.

Mae'r holl ymarferwyr wedi ffurfio perthnasoedd cadarnhaol â'r plant ac yn siarad â nhw'n dyner a chlên a'u trin gyda gofal a pharch. Mae pob ymarferydd yn defnyddio strategaethau effeithiol a chyson i hybu ymddygiad positif yn unol â pholisi'r lleoliad. Er enghraifft, maent yn denu sylw plant at weithgaredd arall os ydynt yn cael trafferthion wrth rannu neu gymryd tro ac mae siart gwobrwyo effeithiol ar waith. Mae'r holl ymarferwyr yn modelu medrau cymdeithasol yn effeithiol wrth chwarae ochr yn ochr â'r plant ac yn eu canmol yn gyson.

Mae gan y lleoliad drefniadau effeithiol er mwyn adnabod a chefnogi anghenion unigol plant, gan gynnwys plant ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae ymarferwyr yn casglu gwybodaeth am hoffterau'r plant, eu hanghenion ac unrhyw wybodaeth berthnasol arall cyn iddynt gychwyn mynychu'r lleoliad. Mae hyn yn eu galluogi i gynllunio'n effeithiol ar gyfer anghenion unigolion. Mae gweithdrefnau cadarn ar waith i sicrhau bod ymarferwyr yn medru gweithio'n llwyddiannus ag asiantaethau allanol os oes angen trefnu unrhyw gymorth ychwanegol.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae ymarferwyr yn cynllunio profiadau dysgu gwerthfawr gan wneud defnydd da o syniadau'r plant. Er enghraifft, maent yn cuddio amrywiaeth o bwmpenni yn y cae er mwyn i'r plant gael mynd i chwilio amdanynt a chymharu eu maint a'u lliw. O ganlyniad i'r prosesau cynllunio pwrpasol, mae profiadau dysgu yn annog datblygiad ym medrau ac chynnydd y plant. Mae'r profiadau dysgu yn hybu medrau a chwilfrydedd y plant yn effeithiol. Mae'r ardaloedd dysgu deniadol y tu mewn a thu allan yn cydgysylltu'n ddi-dor, gan roi rhyddid i blant archwilio'r amgylchedd dysgu o'u dewis, beth bynnag yw'r tywydd.

Mae ymarferwyr yn arsylwi ar y plant yn ystod eu gweithgareddau, ac yn holi cwestiynau er mwyn symud y dysgu ymlaen yn fedrus. Mae eu harsylwadau'n canolbwyntio ar gynnydd ac ar adnabod y cam nesaf yn natblygiad pob plentyn. O ganlyniad, mae gan ymarferwyr wybodaeth gadarn am anghenion unigol y plant, a'r modd mwyaf effeithiol i ddatblygu eu hyder a'u medrau.

Mae ymarferwyr yn sicrhau bod gweithgareddau'n cynnig cyfleoedd cyfoethog i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd y plant. Maent yn darparu llyfrau diddorol ym mhob ardal i ddenu sylw'r plant. Er enghraifft, maent yn gosod llyfr lliwio Sali Mali yn yr ardal beintio er mwyn annog y plant i ymchwilio â gwahanol liwiau wrth greu eu lluniau eu hunain. Mae amrywiaeth o adnoddau rhifedd ar draws yr holl ardaloedd fel boncyffion bach gyda rhif a symbol arnynt er mwyn i'r plant ymgyfarwyddo â defnyddio digidau cyfarwydd wrth gyfri.

Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd buddiol i'r plant ddatblygu eu medrau corfforol drwy gynllunio ardal sy'n ymestyn medrau'r plant yn dda. Er enghraifft, mae'r cwrs rhwystrau ar hyd gwaelod y llethr yn caniatáu i blant ddatblygu cydbwysedd a chryfder corfforol wrth ymateb i'r sialensau. Maent yn cynllunio gweithgareddau buddiol i'r plant ddatblygu eu medrau modur mân wrth chwarae ag offer amrywiol er mwyn gwneud marciau.

Mae ymarferwyr yn darparu amrywiaeth eang o adnoddau i ddatblygu medrau digidol y plant. Mae'r plant yn chwarae'n fuddiol gyda cyfrifianellau a thil yn y siop yn ogystal â chofnodi ar y bwrdd rhyngweithiol. Maent yn cynllunio gweithgareddau i ddatblygu medrau creadigol y plant yn effeithiol, er enghraifft drwy greu llwyfan Sêr Llanfarian er mwyn i'r plant allu perfformiadau drwy actio a chanu.

Mae ymarferwyr yn annog y plant i rannu'n aeddfed ac yn cynllunio cyfleoedd buddiol iddynt gymryd cyfrifoldebau megis helpwr y dydd. Maent yn gwobrwyo ymddygiad da, ac o ganlyniad, mae hunanhyder y plant yn codi ac maent yn cael ymdeimlad o gael eu gwerthfawrogi. Mae ymarferwyr yn modelu'r iaith Gymraeg yn gyson ac effeithiol. Maent yn cyflwyno diwylliant Cymru a'r ardal leol yn llwyddiannus trwy ddathlu achlysuron arbennig fel dydd Owain Glyndwr, a thrwy ymweliadau â lleoliadau hanesyddol fel Castell Aberystwyth. Mae ymarferwyr yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o bwysigrwydd goddefgarwch tuag at bobl o wahanol gefndiroedd diwylliannol yn briodol trwy fynediad at amrediad o deganau a doliau. Er hyn, nid yw'r elfen hon wedi ei datblygu'n llawn hyd yma.

## Yr amgylchedd:  Da

Mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac yn groesawgar, ac wedi'i gynnal a'i gadw'n dda. Mae'r toiledau a'r cyfleusterau newid yn hygyrch ac yn lân, gan ddarparu preifatrwydd ac urddas briodol i'r plant. Mae'r amgylchedd dan do ychydig yn gyfyngedig ond mae’r ymarferwyr yn gwneud defnydd da o’r ardal ac o’r amgylchedd allanol eang i ddarparu cyfleoedd cyfoethog i’r plant chwarae a dysgu. Mae'r amgylchedd cyfan yn rhoi cyfle buddiol i ddatblygu annibyniaeth a chwilfrydedd plant.

Mae gan y lleoliad drefniadau cadarn ar gyfer derbyn ymwelwyr i’r adeilad ac mae arweinwyr yn dilyn gweithdrefnau diogelu effeithiol pan fydd plant yn cyrraedd a gadael y safle. Mae arweinwyr yn diweddaru’r asesiadau risg pwrpasol a thrylwyr yn rheolaidd ac yn eu gweithredu’n drwyadl. Mae arweinwyr yn ymwybodol iawn o faterion diogelwch, er enghraifft wrth gynnal driliau tân rheolaidd.

Mae arweinwyr yn trefnu'r amgylchedd tu fewn a thu allan yn effeithiol gan sicrhau ystod eang o adnoddau ac offer diddorol a chyffrous. Yn yr ystafell chwarae, darperir cyfleoedd i’r plant fwynhau chwarae ag adnoddau mathemategol, byd bach ac adeiladu. Caiff yr adnoddau hyn eu storio ar lefel isel er mwyn galluogi’r plant i ddewis yn annibynnol heb ymyrraeth oedolyn. Mae’r ddarpariaeth yn cynnig mynediad di-dor i’r ardal allanol gyda’r drysau’n agored trwy’r sesiwn ac, o ganlyniad, gall y plant ddewis ble i chwarae.

Mae arweinwyr wedi datblygu'r ardal tu allan i’r eithaf i hyrwyddo chwilfrydedd plant a chynnig cyfleoedd cyfoethog iddynt. Maent yn gwneud defnydd o’r ystod eang o adnoddau yn yr ardal allanol, fel beiciau ac offer ar gyfer plannu i ysgogi chwarae a dysgu’r plant. Mae esgidiau a dillad addas ar gael ar gyfer tywydd anffafriol, sy’n caniatáu i blant chwarae tu allan, beth bynnag yw'r tywydd.  Mae'r amgylchedd yn galluogi’r plant i wneud dewisiadau drostynt eu hunain wrth chwarae a dysgu'n annibynnol.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth:  Da

Mae gan yr arweinydd weledigaeth gref ac mae’n arwain trwy esiampl gan ddangos parch a gofal tuag at y plant ac aelodau’r tîm. Mae arweinwyr wedi llunio datganiad o ddiben pwrpasol ac mae ganddynt bolisïau priodol ar waith. Mae ymarferwyr yn cydweithio’n dda ac yn rhannu syniadau sy’n canolbwyntio ar ddatblygu medrau a chynnal diddordebau’r plant. Mae ymarferwyr yn cael cyfleoedd buddiol i ddatblygu’n broffesiynol. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth a gynigir i’r plant. Er enghraifft, o ganlyniad i hyfforddiant gwaith coed, crëwyd sied goed yn yr ardal allanol i ddatblygu cyfleoedd i’r plant ddatblygu eu medrau corfforol a’u medrau modur mân.

Mae gweithdrefnau hunanwerthuso’r lleoliad yn canolbwyntio’n effeithiol ar amrywiaeth o dystiolaeth a mewnbwn yr holl randdeiliaid. Mae arweinwyr yn adnabod cryfderau a meysydd i’w gwella gan ganolbwyntio’n barhaus ar ddatblygu’r ddarpariaeth ar gyfer y plant a chynnal eu lles. Er enghraifft, bu’r ymarferwyr yn canolbwyntio ar ddatblygu’r modd y maent yn ystyried diddordebau’r plant wrth ddatblygu’r ardal allanol. Bellach, mae’r ardal allanol yn darparu amrediad effeithiol o adnoddau sy’n cynnal diddordeb y plant yn llwyddiannus.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod prosesau recriwtio cadarn yn cael eu gweithredu ac yn sicrhau bod ganddynt wiriadau perthnasol cyn i ymarferwyr newydd ddechrau gweithio gyda'r plant. Mae arweinwyr yn sicrhau eu bod yn cynnal cyfarfodydd gwerthuso blynyddol a chyfarfodydd goruchwylio rheolaidd gydag ymarferwyr.

Mae arweinwyr yn neilltuo cyllid priodol drwy wneud defnydd effeithiol o grantiau lleol a chenedlaethol sy'n cael effaith gadarnhaol ar ansawdd y ddarpariaeth. Enghraifft o hyn yw'r adnoddau sydd wedi eu prynu, fel y dillad glaw sy'n galluogi'r plant i gael mynediad i'r ardal allanol, beth bynnag yw'r tywydd. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar les y plant.

Mae gan yr arweinwyr ac ymarferwyr berthynas gref â rhieni a gofalwyr. Maent yn cyfathrebu'n effeithiol â nhw er lles a datblygiad y plant. Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol mewn modd effeithiol i hysbysu rhieni a gofalwyr o ddigwyddiadau a datblygiadau perthnasol. Maent hefyd yn rhannu cylchlythyr yn dymhorol i drafod dyddiadau a digwyddiadau pwysig sy'n digwydd yn ystod y tymor. Mae prif bolisïau a gweithdrefnau'r lleoliad wedi'u hysbysu'n glir i rieni a gofalwyr wrth y brif fynedfa.

Mae gan arweinwyr berthynas agos â'r ysgol leol. Mae'r plant yn cael cyfleoedd buddiol i ymweld yn rheolaidd i gymryd rhan mewn gweithgareddau fel sesiynau canu, ac i fwynhau straeon. Mae hyn yn hwyluso'r broses drosglwyddo yn llwyddiannus. Mae arweinwyr yn cydweithio'n fuddiol â mudiadau o fewn yr ardal leol. Er enghraifft, maent yn trefnu ffair Nadolig yn flynyddol ac yn cymryd rhan yn y sioe amaethyddol leol.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg)**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 17/12/2024